OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2011 Rhif 2906 (Cy.310)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) (Diwygio) (Cymru) 2011

Gwnaed - - - -	*4 Rhagfyr 2011*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*6 Rhagfyr 2011*
Yn dod i rym - -	*27 Rhagfyr 2011*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 124 a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**).

Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) (Diwygio) (Cymru) 2011 a deuant i rym ar 27 Rhagfyr 2011.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "y prif Reoliadau" ("*the principal Regulations*") yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) 1989(**2**).

Diwygio'r prif Reoliadau

2.—(1) Diwygir y prif Reoliadau fel a ganlyn.

(2) Ar ôl y diffiniad o "refugee" yn rheoliad 1(2) (enwi, cychwyn a dehongli) mewnosoder y diffiniad canlynol—

""the relevant period" means the period from 9 July 2012 to 12 September 2012;".

(3) Yn rheoliad 5 (esemptiad rhag ffioedd ar gyfer triniaeth y cododd yr angen amdani yn ystod yr ymweliad) —

(a) ar ôl y gair "companion" ym mharagraff (f), dileer yr atalnod llawn a mewnosoder "; or"; a

(b) ar ddiwedd y rheoliad, mewnosoder y paragraff a ganlyn —

(**1**) 2006 p.42.
(**2**) O.S. 1989/306 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1991/438; O.S. 1994/1535; O.S. 2004/1433 (Cy. 146); O.S. 2008/2364 (Cy. 203); O.S. 2009/1175 (Cy. 102); O.S. 2009/1512 (Cy. 148); O.S. 2009/1824 (Cy. 165); O.S. 2009/3005 (Cy. 264); O.S. 2010/927 (Cy. 94).